

REVALIDATION

NMC Nursing &
Midwifery
Council



Canllaw cyflogwyr i aiddilysu

CYNNWYS

BETH MAE'R DDOGFEN HON YN EI WNEUD?	3
BETH YW AILDDILYSU?	5
Y BROSES AILDDILYSU A'I GOFYNION.....	7
RÔL CYFLOGWYR YN Y BROSES AILDDILYSU	10
CYNORTHWYO NYRSYS A BYDWRAGEDD	12
GOFYNION AILDDILYSU A CHYFLOGWYR.....	15

BETH MAE'R DDOGFEN

HON YN EI WNEUD?

Diben y ddogfen hon yw hysbysu'r sawl sy'n cyflogi nyrsys a bydwragedd o'r hyn mae ailddilysu yn ei olygu iddynt hwy. Dengys sut y gallant gefnogi'r nyrsys a'r bydwragedd a gyflogir ganddynt wrth iddynt ddilyn y broses ailddilysu a sut y gall ailddilysu ryngweithio â'u prosesau sefydliadol.



Rhoddir manylion llawn am y gofynion ailddilysu, tystiolaeth, proses ac amserlenni ailddilysu yn y canllawiau i nyrsys a bydwragedd. Gweler *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC*, sydd ar gael yn www.nmc.org.uk/revalidation.

Ynglŷn â'r NMC

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Gwnawn hyn drwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n bodloni ein gofynion a gaiff ymarfer fel nyrs neu fydwraig gofrestredig yn y DU.

Rydym yn gweithredu os codir pryderon ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig gofrestredig i ymarfer.



Sut y bydd yr NMC yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd yr NMC bob amser yn ymdrin ag unrhyw wybodaeth a roddir gennych at ddiben aiddilysu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Bydd yr NMC yn prosesu unrhyw ddata a roddir gennych at ddibenion gweinyddu ac asesu ceisiadau aiddilysu nyrsys a bydragedd a gyflogir gennych ac unrhyw gamau dilynol i ddilysu eich cais. Gall yr NMC hefyd ddefnyddio gwybodaeth a ddaw i law drwy'r broses aiddilysu at ddibenion ymchwil ac at ddiben cynnal a gwella ei systemau a'i brosesau mewnol.



Rhoddir manylion ein polisi diogelu data yn ein hysbysiad preifatrwydd yn www.nmc.org.uk/privacy.

Sut i gysylltu â'r NMC

I gael rhagor o wybodaeth am aiddilysu, ewch i'n gwefan yn www.nmc.org.uk/revalidation sy'n cynnwys gwybodaeth am bob agwedd ar aiddilysu.

Os hoffech wneud cwyn am safon ein gwasanaeth, ewch i'r tudalennau 'Cysylltu â ni' ar ein gwefan yn www.nmc.org.uk/contact-us/complaints-about-us.



BETH YW AILDDILYSU?

Ailddilysu yw'r broses sy'n galluogi nyrsys a bydwraidd i barhau â'u cofrestriad â'r NMC.

Fel rhan o'r broses hon, mae angen i bob nyrs a bydwraig fodloni amrywiaeth o ofynion sydd wedi'u dylunio i ddangos eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn mynd ati i sicrhau eu bod yn parhau i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Mae angen i nyrsys a bydwraidd gasglu tystiolaeth a chadw cofnodion er mwyn dangos i gadarnhau eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu.

Bob tair blynedd, gofynnir i bob nyrs a bydwraig wneud cais ailddilysu gan ddefnyddio system NMC Online er mwyn adnewyddu eu cofrestriad â ni.

Y nyrsys a'r bydwraidd eu hunain sy'n gyfrifol am gwblhau'r broses ailddilysu. Nhw sy'n berchen ar eu proses ailddilysu eu hunain.

Nid yw'r broses ailddilysu yn asesu addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer, yn ffordd newydd o godi pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer nac yn eu hasesu yn erbyn gofynion eu cyflogaeth gyfredol neu flaenorol.

Diben ailddilysu

Diben ailddilysu yw gwella'r broses o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod nyrsys a bydwraidd yn dangos eu gallu parhaus i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gydol eu gyrfa.

Un o brif gryfderau ailddilysu yw ei fod yn annog nyrsys a bydwraidd i ddefnyddio'r Cod yn eu hymarfer a'u datblygiad personol beunyddiol. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau a ddisgwylir gan nyrsys a bydwraidd cofrestredig yn eu hymarfer proffesiynol.

Mae'r broses ailddilysu yn cynnwys gofynion sy'n annog nyrsys a bydwraidd i geisio adborth gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried rôl y Cod yn eu hymarfer drwy gynnal trafodaeth fyfyrion â nyrs neu fydwraig arall a cheisio cadarnhad eu bod wedi bodloni'r gofynion hynny gan unigolyn priodol. Bydd yn eu hannog i gymryd rhan mewn rhwydweithiau proffesiynol a thrafodaethau ac i fod yn llai ynysig yn broffesiynol.

Bydd y broses ailddilysu yn helpu cyflogwyr i ymgysylltu'n fwy â'r nyrsys a'r bydwraidd a gyflogir ganddynt a dod yn fwy ymwybodol o sut maent yn cyrraedd ein safonau rheoliadol, fel gweithwyr proffesiynol a reoleiddir. Bydd yn annog trafodaethau cynnar am bryderon ymarfer cyn iddynt waethygu neu fod angen eu hatgyfeirio atom a bydd yn galluogi mwy o nyrsys a bydwraidd i gymryd rhan mewn prosesau arfarnu a datblygu proffesiynol.

Drwy'r broses ailddilysu, rydym am greu cydberthynas waith ryngweithiol a pharhaol â'n nyrsys a'n bydwraidd, a gwella ein dealltwriaeth o'u hymarfer a'r boblogaeth nyrsio a bydwreigiaeth yn ehangach.



Mae'r Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwraidd yn amlinellu'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwraidd eu cynnal er mwyn bod wedi'u cofrestru i ymarfer yn y DU. Gweler www.nmc.org.uk/code am ragor o wybodaeth.



Y BROSES AILDDILYSU

A'I GOFYNION

Nyrsys a bydwagedd yn unigol sy'n gyfrifol am ailddilysu ac maent yn berchen ar y broses honno. Os bydd nyrs neu fydwraig yn bodloni ein holl ofynion, gall gwblhau ei phroses ailddilysu ac adnewyddu ei chofrestriad gyda'r NMC.

Isod, ceir rhestr o'r holl ofynion ailddilysu y mae angen i nyrsys a bydwagedd eu bodloni. Rhoddir rhagor o fanylion am y gofynion hyn, a'r dystiolaeth y mae angen i nyrsys a bydwagedd ei chadw, yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC*.

- O leiaf 450 o oriau ymarfer (900 awr ar gyfer y rhai sy'n ailddilysu fel nyrs a bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCPHN a Bydwraig/SCPHN)).
- 35 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), y mae'n rhaid i o leiaf 20 awr fod yn ddysgu cyfranogol
- Pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer
- Pum cofnod myfyriol ysgrifenedig ar eu DPP a/neu adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu hymarfer, a sut mae hyn yn ymwneud â'r Cod
- Trafodaeth fyfyrion â nyrs neu fydwraig arall
- Datganiad iechyd a chymeriad
- Trefniant indemniad proffesiynol.

Bydd angen i'r nyrs neu'r fydwraig fod wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod y tair blynedd ers adnewyddu ei chofrestriad diwethaf neu ymuno â'r gofrestr.

Pan fydd wedi casglu tystiolaeth ei bod wedi bodloni'r gofynion hyn, bydd angen i'r nyrs neu'r fydwraig gael trafodaeth gadarnhau lle dangosir i gadarnhau'r priodol ei bod wedi bodloni'r gofynion. Disgwyliwn i nyrsys a bydwagedd gael cadarnhad yn ystod 12 mis olaf eu cyfnod adnewyddu tair blynedd.

Dylai cyflogwyr ddefnyddio'r wybodaeth a roddir yn y ddogfen hon, ac mewn mannau eraill gan yr NMC, er mwyn ymgysylltu â'r gofynion hyn. Ar dudalennau 15-19 rhown ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'r gofynion yn ei olygu i chi a sut y gallwch helpu nyrsys a bydwagedd i'w bodloni.



Noder nad yw gofynion ailddilysu'r NMC yr un peth â rhai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol sy'n rheoleiddio meddygon.

Y broses aiddilysu

Gofynnir i nyrsys a bydwagedd adnewyddu eu cofrestriad â'r NMC bob tair blynedd drwy gyflwyno cais aiddilysu ar-lein.

Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer nyrsys a bydwagedd na allant ddefnyddio NMC Online, er enghraifft oherwydd anabled. Hefyd, mae gennym drefniadau cymorth amgen ar waith ar gyfer nyrsys a bydwagedd na allant fodloni'r gofynion aiddilysu o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC*.

Bydd modd gwneud cais ar-lein 60 diwrnod cyn y dyddiad ar gyfer gwneud cais aiddilysu, sef diwrnod cyntaf y mis y daw eu cofrestriad i ben. **Rhaid iddynt gyflwyno eu cais aiddilysu erbyn y dyddiad hwn.**

Diwrnod olaf y mis y mae eu cofrestriad yn dod i ben fydd eu dyddiad adnewyddu. Gall nyrsys a bydwagedd gadarnhau beth yw eu dyddiad adnewyddu drwy NMC Online. Gall sefydliadau a chyflogwyr gadarnhau'r dyddiad adnewyddu ar gyfer y nyrsys a'r bydwagedd a gyflogir ganddynt drwy Wasanaeth Cadarnhau Cyflogwyr yr NMC yn www.nmc.org.uk/employer-confirmations.

Pan fydd y nyrs neu'r fydwaig wedi cyflwyno ei chais aiddilysu, bydd yr NMC yn gwneud penderfyniad ar ei chais. Bydd hefyd angen iddi dalu ei ffi gofrestru flynyddol fel rhan o'i chais aiddilysu. Nid adnewyddir ei chofrestriad nes i ni dderbyn ei thaliad.



Noder, dim ond drwy wneud cais i ailymuno y bydd nyrsys a bydwagedd yn gallu ailymuno â'r gofrestr. Gall y broses hon gymryd rhwng dwy a chwe wythnos, ac ni fyddai modd iddynt ymarfer yn ystod y cyfnod hwnnw.

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o nyrsys a bydwagedd i roi rhagor o wybodaeth i ni er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaed ganddynt fel rhan o'u cais aiddilysu.

Nid yw hyn yn golygu bod gennym unrhyw bryderon am eu cais. Noder, bydd unrhyw nyrs neu fydwaig sy'n destun proses ddilysu yn aros ar y gofrestr tra ein bod yn cynnal y broses ddilysu a gall barhau i ymarfer tra ein bod yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ganddynt.

Cadw tystiolaeth

Argymhellwn yn gryf fod nyrsys a bydwagedd yn cadw tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r gofynion aiddilysu mewn portffolio. Os ydynt eisoes yn cadw portffolio proffesiynol, gall tystiolaeth aiddilysu fod yn rhan o'r portffolio hwnnw. Nid oes angen iddynt gadw portffolio ar wahân ar gyfer aiddilysu nac o reidrwydd ddefnyddio e-portffolio.

Bydd hyn yn ddefnyddiol wrth gynnal trafodaeth â'u cadarnhawr. Bydd hefyd angen iddynt gael y wybodaeth hon rhag ofn y gofynnwn amdani er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaed ganddynt fel rhan o'u cais.

Ni ddylai portffolios gofnodi unrhyw wybodaeth a allai nodi pwy yw unigolyn, p'un a yw'n fyw neu'n farw.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wybodaeth gael ei chofnodi mewn ffordd nad yw'n nodi pwy yw unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr neu unigolyn arall ar sail y wybodaeth honno.



Mae'r adran ar wybodaeth nad yw'n ganfyddadwy yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC* yn rhoi canllawiau ar sut y gall nyrsys a bydwagedd sicrhau nad yw eu portffolios yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai nodi pwy yw unigolyn, yn ogystal â sut i storio data.



Disgwylwn i unrhyw dystiolaeth gael ei chadw yn Saesneg a rhaid i nyrsys a bydwagedd gyflwyno eu cais aiddilysu, ac unrhyw wybodaeth ddilysu ddilynol, yn Saesneg. Mae ecynllun iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn trin y Gymraeg ar y sail ei bod yn gyfartal wrth gyflawni agweddau ar ein busnes gan gynnwys cynllunio a darparu gwasanaethau a chyfathrebu. Mae'r cynllun ar gael ar ein gwefan yn:

www.nmc.org.uk/about-us/our-equality-and-diversity-commitments/welsh-language-scheme.



RÔL CYFLOGWYR YN Y

BROSES AILDDILYSU

Mae gan lawer o nyrsys a bydwagedd gyflogwr. Mae'n bwysig eich bod chi, fel cyflogwr, yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau a ddisgwylir gan nyrsys a bydwagedd cofrestredig yn eu hymarfer proffesiynol.

Mae hefyd yn bwysig i chi fod yn ymwybodol nad asesu gofynion cyflogwr cyfredol neu flaenorol mo ailddilysu.

Dim ond yr NMC fel y rheoleiddiwr, a'r nyrsys a'r bydwagedd eu hunain, a all benderfynu pwy sy'n aros ar ein cofrestr.

Nid ydym yn bwriadu gweithredu yn erbyn cyflogwyr sy'n rhoi gwybodaeth anghywir yn anfwriadol. Eto i gyd, beth bynnag yw eu rôl yn y broses ailddilysu, disgwylir i gyflogwyr ymddwyn yn onest ac yn ddiwyll.

Os bydd rheswm dros gredu bod y nyrs neu'r fydwraig y rhoesoch wybodaeth amdani wedi gwneud datganiad anwir yn ei chais ailddilysu, gellir defnyddio gwybodaeth a roddwyd gennych yn onest ac yn ddiwyll fel cyflogwr i ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri'r Cod ac at ddiben unrhyw achos addasrwydd i ymarfer dilynol yn erbyn y nyrs neu'r fydwraig.

Arfarniadau

Mae arfarniadau yn galluogi cyflogwyr i asesu perfformiad eu cyflogeion yn erbyn gofynion eu rôl a nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu. Mae'r broses ailddilysu wedi'i dylunio fel y gellir ei chynnal fel rhan o arfarniad rheolaidd, er ei bod yn bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng y ddwy broses.

Argymhellwn yn gryf, lle bo modd, fod y drafodaeth gadarnhau yn rhan o arfarniad blynyddol y nyrs neu'r fydwraig. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys trafodaeth ailddilysu yn ystod pob arfarniad blynyddol fel y gall y nyrs neu'r fydwraig roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w chadarnhau am hyn y broses ailddilysu, er nad yw hyn yn angenrheidiol.

Gallai nyrsys a bydwagedd fod am gael eu trafodaeth fyfyrion a'u trafodaeth gadarnhau fel rhan o arfarniad blynyddol os yw eu rheolwr llinell yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru â'r NMC.

Os nad ydych chi, fel cyflogwr, yn cynnal arfarniadau rheolaidd ar hyn o bryd, gallech ystyried trefnu arfarniad ar gyfer nyrsys a bydwagedd cyn eu dyddiad ailddilysu.

Fodd bynnag, bydd nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn cael arfarniadau rheolaidd, neu sy'n dewis peidio â chael eu trafodaeth gadarnhau fel rhan o arfarniad, yn gallu adnewyddu eu cofrestriad o hyd drwy fodloni'r gofynion ailddilysu. Nid oes angen iddynt drefnu i unigolyn neu sefydliad arall gynnal arfarniad at ddibenion ailddilysu.

Cyflogwyr a chadarnhau

Yn ogystal â chynorthwyo'r nyrsys a'r bydwragedd a gyflogir ganddynt wrth iddynt ddilyn y broses ailddilysu, gellid hefyd ofyn i gyflogwyr weithredu fel cadarnhawyr a phenderfynu a yw nyrs neu fydwraig wedi bodloni'r gofynion ailddilysu. Os gofynnir i chi gyflawni'r rôl hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ein gwybodaeth i gadarnhawyr yn [revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation](https://www.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation). Gellid hefyd ofyn i chi weithredu fel partner trafod myfyriol. Rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth am y rôl hon yn ein taflen ganllaw yn [revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information](https://www.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information).

Pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer

Os bydd cyflogwr, nyrs neu fydwraig, neu unrhyw unigolyn arall, yn dod yn ymwybodol o bryder difrifol ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig arall, dylai ei godi'n ddiymdroi drwy ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Mae gan bob nyrs a bydwrraig ddyletswydd broffesiynol i godi pryder am ymarfer nyrs neu fydwraig arall naill ai drwy ei chyflogwr neu'n uniongyrchol gyda ni. Ni ddylai aros nes cyfnod adnewyddu nyrs neu fydwraig i godi pryder o'r fath ynghylch addasrwydd i ymarfer. Mae'r NMC yn cydgysylltu â chyflogwyr drwy'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn briodol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Gallwn eich helpu gyda'r canlynol:

- Gwneud atgyfeiriadau
- Datblygu achosion addasrwydd i ymarfer
- Darparu sesiynau dysgu a sefydlu ar gyfer addasrwydd i ymarfer
- Gwrando ar gyflogwyr a rhannu gwybodaeth

I gael rhagor o fanylion am y gwasanaeth, a sut i gysylltu â'r tîm, ewch i'n gwefan yn www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/what-we-do/services-employers.

Nid yw'r broses ailddilysu yn cynnig ffordd newydd o godi pryder addasrwydd i ymarfer am nyrs neu fydwraig, ac nid yw cam cadarnhau ailddilysu yn cynnwys barnu a yw nyrs neu fydwraig yn addas i ymarfer.

Os bydd nyrs neu fydwraig yn destun ymchwiliad, gorchymyn amod(au) ymarfer neu rybudd gan yr NMC, bydd yn gallu gwneud cais i adnewyddu ei chofrestriad ar yr amod ei bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, bydd yn dal i fod yn destun prosesau addasrwydd i ymarfer yr NMC a chanlyniad y prosesau hynny.

Os bydd nyrs neu fydwraig yn destun gweithdrefn ddisgyblu fewnol, bydd yn gallu gwneud cais i adnewyddu ei chofrestriad ar yr amod ei bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, os bydd y weithdrefn ddisgyblu fewnol hon yn cynnwys pryderon am addasrwydd i ymarfer y nyrs neu'r fydwraig, dylai'r rhain gael eu codi yn y ffordd briodol ar y pryd. Ni fyddai hyn yn dod o dan y broses ailddilysu.



I gael rhagor o wybodaeth am ein prosesau addasrwydd i ymarfer, ewch i www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/what-we-do/what-is-fitness-to-practise. Gallwch ddysgu sut i wneud atgyfeiriad yn www.nmc.org.uk/report-nurse-midwife.

CYNORTHWYO NYRSYS

A BYDWRAGEDD

Mae ein model ailddilysu mewn nyrsio a bydwreigiaeth wedi cael ei ddatblygu gyda'r nod o'i roi ar waith mewn perthynas â phob math o leoliad ymarfer, gan gynnwys y rhai lle mae nyrsys a bydwagedd yn ymarfer yn annibynnol heb fawr ddim cymorth, os o gwbl.

Nid oes rhaid i chi roi cymorth penodol i'r nyrsys a'r bydwagedd a gyflogir gennych. Fodd bynnag, gwyddom y bydd cyflogwyr da am roi systemau cymorth ar waith sy'n sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn gymwys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Credwn y bydd cyflogwyr yn cael budd o ddilyn y broses ailddilysu ac mai'r rheini sy'n paratoi ar ei chyfer, yn buddsoddi ynnddi ac yn ei chefnogi a gaiff y budd mwyaf ohoni. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gyflogwyr a sefydliadau gynnal asesiad ehangach o'r systemau sicrhau ansawdd sydd ganddynt ar waith.

Mae amrywiaeth o gymorth y gallech ei roi i'ch nyrsys a'ch bydwagedd er mwyn eu helpu i ailddilysu. Isod, nodwn y lefelau gofynnol o gymorth y dylai cyflogwyr ei ddarparu yn ein barn ni, a'r hyn y gall nyrsys a bydwagedd ei ddisgwyl yn rhesymol gan eu cyflogwr, mewn pedwar maes allweddol: ymwybyddiaeth a diwylliant; gallu ac adnoddau; systemau a phrosesau; a chanllawiau, adnoddau a chymorth. Mae deunyddiau cymorth ychwanegol ar gael ar wefan yr NMC yn revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information.

Ymwybyddiaeth a diwylliant

Cymorth lleiaf

- Codi ymwybyddiaeth o ailddilysu ymhlith eich nyrsys a'ch bydwagedd.

Cymorth a ddisgwylir yn rhesymol

- Deall y newidiadau arfaethedig i ofynion cyfredol a sut y bydd ailddilysu yn effeithio ar nyrsys a bydwagedd cofrestredig yn eich sefydliad
- Cyfleu'r newidiadau a'r gofynion newydd o ran ailddilysu i'ch nyrsys a'ch bydwagedd
- Rhoi cynlluniau sylfaenol ar waith i gefnogi'r broses ailddilysu a'u cyflwyno i uwch arweinwyr eich sefydliad.



Gallu ac adnoddau

Cymorth lleiaf

- Sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn gallu aiddilysu, ac nad oes unrhyw rwystr sylweddol i hyn o ran y sefydliad.

Cymorth a ddisgwylir yn rhesymol

- Asesu'r hyn sydd ei angen i gefnogi aiddilysu yn eich sefydliad, gan gynnwys y lefel o gymorth sydd ei angen ar staff, ynghyd â chynlluniau i fynd i'r afael â hyn
- Lle y bo'n briodol, sicrhau bod rheolwyr llinell (neu unigolion eraill) yn gallu gweithredu fel cadarnhawyr a phartneriaid trafod myfyriol
- Rhoi lle ac amser i'ch nyrsys a'ch bydwagedd gynnal eu trafodaethau myfyriol a'u trafodaethau cadarnhau (os ydynt ar wahân i'r broses arfarnu).

Systemau a phrosesau

Cymorth lleiaf

- Sicrhau bod unrhyw nyrsys a bydwagedd a gyflogir gennych wedi'u cofrestru â'r NMC.

Cymorth a ddisgwylir yn rhesymol

- Nodi dyddiadau gwneud cais aiddilysu ac adnewyddu ar gyfer eich holl nyrsys a bydwagedd
- Annog nyrsys a bydwagedd i gofrestru ar gyfer NMC Online
- Lle y bo'n briodol, rhoi cynlluniau ar waith i nyrsys a bydwagedd gael cadarnhad fel rhan o'u proses arfarnu, neu broses amgen
- Sicrhau bod modd gweld adborth lle mae'n bodoli eisoes (gan gynnwys archwiliadau, arolygon boddhad, cwynion ac arfarniad unigol y nyrs neu'r fydwraig)
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael gafael ar gyfarpar TG angenrheidiol.

Canllawiau, adnoddau a chymorth

Cymorth lleiaf

- Cyfeirio nyrsys a bydwragedd at wefan yr NMC, lle gallant gael gfael ar yr holl ganllawiau, gwybodaeth a deunyddiau sydd eu hangen arnynt mewn perthynas ag ailddilysu.

Cymorth a ddisgwylir yn rhesymol

- Rhoi rhagor o wybodaeth am bwy yn eich sefydliad all weithredu fel cadarnhawr a/neu bartner trafodaeth fyfyrïol fel y nodir yng ngofynion yr NMC
- Ystyried p'un a allai systemau sefydliadol anffurfiol gael eu gweithredu er mwyn cyflwyno dysgu DPP cyfranogol
- Cynnwys gwybodaeth am ofynion y broses ailddilysu ar-lein a'r amseru yn eich systemau cyfathrebu lleol
- Atgoffa nyrsys a bydwragedd am eu rhwymedigaethau cyfrinachedd o dan y Cod a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mesurau cefnogol eraill

Cydnabyddwn y bydd rhai cyflogwyr a sefydliadau am annog diwylliant o ddysgu a defnyddio'r broses o gyflwyno ailddilysu fel cyfle i atgyfnerthu eu prosesau eu hunain. Efallai y byddant yn penderfynu rhoi mesurau cefnogol ychwanegol ar waith ond nid yw'r rhain yn hanfodol er mwyn i nyrsys a bydwragedd gael eu hailddilysu.

Gallai mesurau o'r fath gynnwys:

- hyfforddi staff i gefnogi'r broses ailddilysu
- datblygu e-bortffolios
- deunydd cefnogol lleol ychwanegol i fynd law yn llaw â chanllawiau'r NMC
- seminarau, sesiynau astudio a 'hyrwyddwyr ailddilysu' i raeadru gwybodaeth i nyrsys a bydwragedd ar y rheng flaen.

Mae angen i gyflogwyr sicrhau bod unrhyw brosesau a roddir ar waith ganddynt yn ddefnyddiol, yn hyrwyddol ac yn gyson â'r pwyslais y mae ailddilysu yn ei roi ar nyrsys a bydwragedd yn cymryd cyfrifoldeb am fodloni gofynion yr NMC.

E-bortffolios

Un ffordd y gallai cyflogwyr a sefydliadau ystyried cynorthwyo eu nyrsys a'u bydwragedd yw drwy ddarparu system e-bortffolio fel eu bod yn gallu cadw eu tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu.

Noder yr argymhellir cadw portffolio, ond nad yw'n ofynnol at ddibenion ailddilysu.

Os byddwch yn penderfynu darparu'r gwasanaeth hwn, bydd angen i chi fod yn ymwybodol bod goblygiadau diogelu data. Am ragor o wybodaeth, gweler ein taflen gyfarwyddyd yn revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information.

GOFYNION AILDDILYSU

A CHYFLOGWYR

Yn yr adran hon, tynnwn sylw at rai rhannau allweddol o'r gofynion ailddilysu y dylai cyflogwyr fod yn gyfarwydd â hwy. Noder y rhoddir manylion llawn am y gofynion a sut y gall nyrsys a bydwagedd eu bodloni yn *Sut i ail-ddilysu gyda'r NMC*. Mae'r wybodaeth isod wedi'i llunio ar gyfer cyflogwyr yn unig; os gofynnir i chi gyflawni rôl cadarnhawr a/neu bartner trafodaeth fyfyrriol, dylech ddarllen y wybodaeth rydym wedi'i rhoi i ategu'r rolau hyn.

450/900 o oriau ymarfer

Mae angen i nyrsys a bydwagedd gadw tystiolaeth ysgrifenedig eu bod wedi ymarfer y nifer ofynnol o oriau sydd eu hangen ar gyfer eu cofrestriad. Gallai hyn gynnwys eu contract cyflogaeth (nodi oriau), taflenni amser, manylebau swydd a phroffiliau rôl.

Dim ond oriau sy'n berthnasol i gofrestrriad nyrsio a bydwreigiaeth sy'n cyfrif tuag at yr oriau gofynnol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfyngedig i ymarfer clinigol ac mae'n cynnwys gwaith mewn rolau nad ydynt yn glinigol fel rheoli, polisi ac addysg. Mae'n cynnwys gwaith â thâl a gwaith gwirfoddol.

Rhaid i nyrsys a bydwagedd gyflawni eu horiau ymarfer mewn rôl lle maent yn dibynnu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.

- Mae hyn yn cynnwys ymarfer fel nyrs, bydwraig a SCPHN, mewn rolau sy'n debygol o ofyn am gofrestrriad.
- Mae hyn hefyd yn cynnwys nyrsys a bydwagedd sy'n dibynnu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig, ond sydd mewn rolau lle nad yw eu contract cyflogaeth yn gofyn iddynt gofrestru â ni'n benodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rolau mewn meysydd rheoli, comisiynu, polisi ac addysg iechyd y cyhoedd neu nyrsio a bydwreigiaeth.
- Gall hyn gynnwys gwaith a wneir mewn rolau gwirfoddol, lle mae nyrs neu fydwraig yn dibynnu ar ei sgiliau, ei gwybodaeth a'i phrofiad o fod yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig.
- Ni all oriau a gyflawnwyd mewn unrhyw rôl fel cynorthwydd neu weithiwr cymorth gofal iechyd, nyrsio neu bydwreigiaeth gyfrif tuag at oriau ymarfer fel nyrs neu fydwraig gofrestredig.

Rydym wedi darparu templed a allai helpu'r nyrs neu'r fydwraig i gofnodi ei horiau ymarfer. Mae hyn yn cynnwys lleoliad ymarfer, dyddiadau ymarfer, cwmpas ymarfer, disgrifiad o'r gwaith a wnaed a nifer yr oriau.



Mae nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (SCPHN) yn golygu nyrs neu fydwraig gofrestredig sydd hefyd wedi cofrestru yn rhan Nyrsys Iechyd Cymunedol Arbenigol y gofrestr.

35 awr o DPP, y mae'n rhaid bod o leiaf 20 awr wedi cynnwys dysgu cyfranogol

Fel gweithwyr proffesiynol, mae gan nyrsys a bydwragedd ddyletswydd i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy broses dysgu a myfyrio barhaus.

Rhaid i unrhyw weithgaredd dysgu fod yn berthnasol i gwmpas ymarfer fel nyrs neu fydwraig ac ni fyddai'n cynnwys hyfforddiant gorfodol nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymarfer. Yn arbennig, gallwch helpu nyrsys a bydwragedd i gyflawni'r elfen gyfranogol o'r gofyniad hwn. Mae cyflogwyr yn chwarae rôl allweddol o ran yr hyfforddiant a gaiff y nyrsys a'r bydwragedd a gyflogir ganddynt.

Rydym wedi darparu templed er mwyn helpu nyrsys a bydwragedd i gofnodi eu gweithgareddau DPP.

Pum darn o adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer

Gall nyrsys a bydwragedd gael adborth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yn uniongyrchol o gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, myfyrwyr a chydweithwyr. Hefyd, gellir ei gael drwy adolygu cwynion, adroddiadau ar berfformiad tîm, adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac adborth a gafwyd yn ystod eu harfarniad blynyddol. Gall yr adborth fod yn gadarnhaol neu'n adeiladol a gall fod yn seiliedig ar ymarfer yr unigolyn neu ei dîm neu ei uned.

Mewn llawer o sefydliadau, caiff adborth ei gasglu mewn sawl ffordd yn barod. Rhaid i nyrsys a bydwragedd gael caniatâd i weld neu ddefnyddio gwybodaeth eu cyflogwr. Ni ddylai unrhyw wybodaeth gael ei chymryd, ei defnyddio na'i chofnodi mewn ffordd sy'n nodi pwy yw unigolyn. Er enghraifft, ni ddylai nyrsys a bydwragedd anfon negeseuon e-bost gwaith i'w cyfrifon personol, na lawrlwytho na chymryd copïau o gofnodion cyflogwyr.

Os bydd nyrsys a bydwragedd yn dewis ceisio adborth gan gydweithwyr, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol, rhaid iddynt ddatgan yn glir yn eu cais na ddylai unrhyw wybodaeth sy'n nodi pwy yw unigolyn gael ei chynnwys mewn unrhyw adborth a roddir. Dylent hefyd eu hysbysu am sut maent yn bwriadu defnyddio eu hadborth.

Rydym wedi darparu templed y gall y nyrs neu'r fydwraig ei ddefnyddio i gofnodi ei hadborth.

Pum cofnod myfyriol ysgrifenedig

Rhaid i nyrsys a bydwragedd baratoi pum cofnod myfyriol ysgrifenedig ar eu DPP a/neu adborth sy'n gysylltiedig ag ymarfer a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu hymarfer, a dynodi sut mae hyn yn ymwneud â'r Cod.

Mae angen i gofnodion myfyriol gynnwys yr hyn y mae'r nyrs neu'r fydwraig wedi'i ddysgu yn sgil ei gweithgarwch DPP, adborth, digwyddiad neu brofiad wrth ymarfer, sut y gwnaeth newid neu wella ei hymarfer o ganlyniad, a sut mae'n berthnasol i'r Cod.

Rydym wedi darparu ffurflen NMC y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd ei defnyddio i lunio eu cofnodion myfyriol. Bydd yn llywio eu trafodaeth fyfyrion ac yn darparu tystiolaeth i ddangos i'w cadarnhau.

Trafodaeth fyfyrion â nyrs neu fydwrraig arall sydd wedi cofrestru â'r NMC

Rhaid i nyrsys a bydwagedd drafod eu cofnodion myfyriol ysgrifenedig gyda nyrs neu fydwrraig sydd wedi cofrestru â'r NMC fel rhan o drafodaeth fyfyrion.

Gallai'r partner trafodaeth fyfyrion fod yn rhywun y mae'r nyrs neu'r fydwrraig yn gweithio gydag ef yn rheolaidd neu'n rhywun o rwydwaith proffesiynol neu grŵp dysgu. Nid oes angen iddi fod yn gweithio gydag ef bob dydd ac nid oes angen iddi fod yn gwneud yr un math o ymarfer na bod ar yr un rhan o'r gofrestr (felly gall nyrs gael trafodaeth fyfyrion gyda bydwraig ac i'r gwrthwyneb).

Mater i'r nyrs neu'r fydwrraig yw penderfynu ar yr unigolyn mwyaf priodol i gynnal y sgwrs hon gydag ef, gan gynnwys p'un a yw ar lefel uwch neu ar lefel is iddi.

Os bydd cadarnhau yn nyrs neu'n fydwrraig, gall trafodaeth fyfyrion ffurfio rhan o'r drafodaeth gadarnhau.

Rydym wedi darparu ffurflen NMC y mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd ei defnyddio ar gyfer eu trafodaeth, a rhaid iddi gael ei llofnodi gan y nyrs neu'r fydwrraig sydd wedi'i chofrestru â'r NMC y cafwyd y drafodaeth â hi.

Datganiad iechyd a chymeriad

Fel rhan o'u cais aildilysu, rhaid i nyrsys a bydwagedd gyflwyno datganiad iechyd a chymeriad.

Rhaid iddynt ddatgan p'un a ydynt wedi cael eu collfarnu o unrhyw drosedd neu wedi cael rhybudd ffurfiol. Gofynnir iddynt ddatgan p'un a ydynt wedi bod yn destun unrhyw benderfyniad andwyol yr amherir ar eu haddasrwydd i ymarfer gan gorff proffesiynol neu reoliadol (gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol).

Nid oes angen i'r gofyniad hwn gael ei ddilysu gan gadarnhau.

Trefniant indemniad proffesiynol

yswariant addas o dan drefniant indemniad proffesiynol. Mae angen iddynt roi gwybod i ni a wnaed eu trefniant indemniad drwy eu cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol neu o dan yswariant preifat.

Gan fod y rhan fwyaf o gyflogwyr yn darparu yswariant indemniad priodol ar gyfer eu cyflogeion, dylai pob nyrs a bydwraig holi eu cyflogwr/cyflogwyr am hyn.

Nid oes angen i'r gofyniad hwn gael ei ddilysu gan gadarnhau.

Cadarnhad

Mae a wnelo'r broses gadarnhau â nyrsys a bydwragedd yn cynnal trafodaeth am ailddilysu gyda chadarnhau priodol. Fel rhan o'r drafodaeth honno, byddant yn dangos i'r cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ailddilysu, ar wahân i drefniant indemniad proffesiynol a datganiad iechyd a chymeriad.

Gall nyrsys a bydwragedd ddewis pwy yw eu cadarnhau, ond disgwylw'n iddynt geisio cadarnhad gan unigolyn priodol. Bydd rheolwr llinell yn gadarnhau priodol, ac argymhellw'n yn gryf fod nyrsys a bydwragedd yn cael cadarnhad gan eu rheolwr llinell lle bynnag y bo modd. Nid oes rhaid i reolwr llinell fod yn nyrs neu'n fydwaig sydd wedi cofrestru â'r NMC. Dylai'r broses gadarnhau annog rheolwyr llinell i ystyried a thrafod yn rheolaidd sut mae eu nyrsys a'u bydwragedd yn ymgysylltu â gweithgareddau datblygu proffesiynol er mwyn cynnal a meithrin eu cymhwysedd a gwella eu hymarfer.

Fodd bynnag, nid oes angen i bob nyrs a bydwaig gael rheolwr llinell. Os na fydd gan nyrs neu fydwaig reolwr llinell, bydd angen penderfynu pwy sydd orau i weithredu fel cadarnhau. Lle bynnag y bo modd, argymhellw'n fod y cadarnhau yn nyrs neu'n fydwaig sydd wedi cofrestru â'r NMC. Bydd yn ddefnyddiol os byddant wedi cydweithio neu â chwmpas ymarfer tebyg, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Os nad yw hynny'n bosibl, gall nyrsys a bydwragedd geisio cadarnhad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y maent yn gweithio gydag ef ac a reoleiddir yn y DU. Er enghraifft, gallent ofyn i feddyg, deintydd neu fferylllydd.

Rydym wedi darparu ffurflen NMC y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd ei defnyddio i gofnodi eu trafodaeth gadarnhau. Bydd angen i gadarnhawyr gwblhau a llofnodi'r ffurflen hon.



Rydym wedi darparu canllawiau ar rôl cadarnhawyr, yn ogystal ag adnodd cadarnhau ar-lein yn revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am bwy all fod yn gadarnhau.

Nyrsys a bydwragedd sydd â mwy nag un cyflogwr a/neu reolwr llinell

Bydd gan rai nyrsys a bydwragedd fwy nag un cyflogwr a/neu reolwr llinell, neu byddant yn cyflawni mwy nag un rôl. Bydd angen i'r nyrsys a'r bydwragedd hyn gael un cadarnhad sy'n cwmpasu eu holl ymarfer. Bydd angen iddynt benderfynu pa reolwr llinell sydd fwyaf priodol i gadarnhau eu bod wedi bodloni'r holl ofynion ailddilysu.

Argymhellw'n eu bod yn cynnal eu trafodaeth ailddilysu ac yn cael cadarnhad drwy'r cyflogwr a/neu'r rheolwr llinell lle maent yn gwneud y rhan fwyaf o'u gwaith. Gallant ddewis gael trafodaeth ailddilysu ar gyfer pob cyflogwr a/neu gyda phob un o'u rheolwyr llinell, a rhannu allbynnau'r trafodaethau hynny yn eu trafodaeth gadarnhau.

Cysylltu â chi am ragor o wybodaeth

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o nyrsys a bydwagedd i roi rhagor o wybodaeth i ni er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaed ganddynt fel rhan o'u cais ailddilysu. Nid yw hyn yn golygu bod gennym unrhyw bryderon am eu cais.

Noder, bydd unrhyw nyrs neu fydwraig sy'n destun proses ddilysu yn aros ar y gofrestr tra ein bod yn cynnal y broses ddilysu a gall barhau i ymarfer tra ein bod yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir ganddynt. Ni chaiff cofrestrriad unrhyw nyrs neu fydwraig sy'n destun dilysu ei adnewyddu nes bod y broses ddilysu yn gyflawn. Fodd bynnag, cwblheir y broses ddilysu o fewn tri mis i'w dyddiad adnewyddu.

Fel rhan o'r broses hon, efallai y byddwn yn cysylltu â chyflogwyr er mwyn dilysu gwybodaeth a roddwyd gan nyrs neu fydwraig yn ei chais. Yn eu cais ar-lein, gofynnir i nyrsys a bydwagedd roi caniatâd at y diben hwn. Byddwn hefyd yn cysylltu â chadarnhawyr ac efallai y byddwn yn cysylltu â phartneriaid trafodaeth fyfyrion.

Dylech ymateb i unrhyw gais am wybodaeth erbyn y dyddiad gofynnol: os na fyddwch yn ymateb, gallech beryglu cais ailddilysu'r nyrs neu'r fydwraig.

Gwybodaeth ychwanegol

I gael gwybodaeth ychwanegol am agweddau penodol ar ailddilysu, gweler y ffynonellau canlynol:

Nyrsys a bydwagedd
revalidation.nmc.org.uk

Cadarnhawyr
revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation

Partneriaid trafodaeth fyfyrion
revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information

Trefniant indemniad proffesiynol
www.nmc.org.uk/indemnity